

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

National Botanic Garden of Wales

Safonau'r Iaith Gymraeg
Adroddiad Blynyddol 2018-19

Welsh Language Standards
Annual Report 2018-19

Cynnwys			Contents		
1	Cyflwyniad	3	1	Introduction	3
2	Cyflawniadau	3	2	Achievements	3
3	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	4	3	Service Delivery Standards	4
4	Safonau Llundio Polisi	6	4	Policy Making Standards	6
5	Safonau Gweithredol	6	5	Operational Standards	6
6	Sgiliau yn y Gymraeg: Gweithwyr	8	6	Welsh Language Skills: Employees	8
7	Sgiliau yn y Gymraeg: Swyddi Newydd a Gwag	8	7	Welsh Language Skills: New and Vacant Posts	8
8	Hyfforddiant Staff yn Gymraeg	9	8	Staff Training Welsh	9
9	Gwybodaeth Bellach	9	9	Further Information	9

1 Cyflwyniad

Mae Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod ar Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ("yr Ardd") ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel sydd wedi'u gosod allan yn ei Hysbysiad Cydymffurfio.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019 (h.y. blwyddyn ariannol 2018-19) ac mae ei gynhyrchu yn un o ofynion Safonau'r Gymraeg.

2 Cyflawniadau

Penodi Swyddog Cydymffurfiant i wneud trosolwg o weithredu Safonau'r Gymraeg.

Datblygu Polisi Iaith Gymraeg ar gyfer yr Ardd yn rhoi manylion am y ffordd y byddai'r Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog yn yr Ardd i gyd a sut y byddai'r Safonau'n cael eu gweithredu.

Hyfforddiant i'r staff i gyd ar ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg.

Gosod arwydd yn y Tŷ Porth yn annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg tra byddant yn yr Ardd.

Sefydlu fframwaith o gyfieithwyr i'w defnyddio yn yr Ardd i gyd, i'w gwneud yn haws i'r holl staff gael gwasanaethau cyfieithu o safon pan fydd angen.

Cofrestru gyda Dysgu Cymraeg ar gyfer y cyrsiau Cymraeg Gwaith ar-lein a chreu grwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

Prynu trwydded ar gyfer Cysgliad, a gosod y feddalwedd ar nifer o gyfrifiaduron.

1 Introduction

Section 44 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 confers on the National Botanic Garden of Wales ("the Garden") a duty to comply with Welsh Language Standards as set out in its Compliance Notice.

This report covers the period 1st April 2018 through to 31st March 2019 (i.e. the 2018-19 financial year) and its production is a requirement of the Welsh Language Standards.

2 Achievements

Appointment of a Compliance Officer to have oversight of the implementation of the Welsh Language Standards.

Development of a Welsh Language Policy for the Garden detailing how the Welsh Language would be supported and encouraged across the Garden and how the Standards would be implemented.

Welsh Language Standards awareness training for all staff.

Sign erected in the Gatehouse encouraging both fluent speakers and learners to use Welsh whilst in the Garden.

Establishment of a framework of translators to be used across the Garden, making it easier for all staff to access high-quality translation services when required.

Registration with Dysgu Cymraeg for the Work Welsh online courses and creation of conversation groups for Welsh learners.

Purchase of a licence for Cysgliad, and installation of the software on a number of computers.

3 Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Cafwyd un gŵyn yn ystod y flwyddyn ynglŷn â'n cydymffurfiant â'r Safonau Darparu Gwasanaeth. Ymchwiliwyd i'r mater hwn, cysylltwyd â'r achwynydd a chymerwyd camau i sicrhau na fydd digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Gohebiaeth

Polisi'r Ardd yw croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg ac ateb yn Gymraeg os bydd yr ohebiaeth wedi ei hanfon yn Gymraeg. Lle bydd y dewis i ddefnyddio'r Gymraeg yn hysbys, defnyddir y Gymraeg.

Teleffon

Bydd yr Ardd yn cyfarch yn Gymraeg ac yna yn Saesneg ar ei phrif rif teleffon, a pholisi'r Ardd yw i staff gyfarch galwyr yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg. Lle bydd galwyr yn dymuno cynnal eu sgwrs yn Gymraeg, polisi'r Ardd yw hwyluso hynny.

Cyfarfodydd a Digwyddiadau

Mae'r Ardd yn cydymffurfio â safonau'n ymwneud â chyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae'r Ardd yn croesawu ac yn annog defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn unol â'r Safonau, a chaiff pob arddangosfa a drefnir gan yr Ardd ei chynhyrchu'n ddwyieithog.

Dogfennau a Ffurflenni

Mae'r holl ddogfennau sy'n cael eu creu gennym yn benodol i'w defnyddio gan ein hymwelwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd naill ai'n ddwyieithog neu ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Gwefannau a Chyfyngau Cymdeithasol

Mae pob tudalen ar wefan yr Ardd yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda dolen ar bob tudalen sy'n cyfnewid rhwng y ddwy iaith. Bydd rhai

3 Service Delivery Standards

One complaint was received during the year relating to our compliance with the Service Delivery Standards. This issue was investigated, the complainant contacted and steps taken to ensure that there is no similar occurrence in the future.

Correspondence

It is the policy of the Garden to welcome correspondence in Welsh or English and to reply in Welsh if the correspondence was received in Welsh. Where a preference for Welsh to be used is known, Welsh will be used.

Telephone

The Garden uses greetings in both Welsh, and then English, on its main telephone number, and it is the policy of the Garden for staff to greet callers using Welsh first, and then English. Where callers wish to conduct their call in Welsh, it is the Garden's policy to facilitate this.

Meetings and Events

The Garden is compliant with standards relating to meetings and events.

The Garden welcomes and encourages the use of Welsh at meetings and events in line with the Standards, and all exhibitions staged by the Garden are produced bilingually.

Documents and Forms

All documents and forms that we create specifically for use by our visitors and other members of the public are either bilingual or exist as separate Welsh and English versions.

Website and Social Media

Every page of the Garden's website is in Welsh and English, with a link on every page that switches between the two languages. Some

aelodau o'r staff yn ysgrifennu blogiau, ac fel rheol bydd y rheiny'n ymddangos yn iaith/ieithoedd yr awdur.

Bydd pob eitem ar Twitter, Facebook ac Instagram o gyfrifon yr Ardd Fotaneg yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fyddwn yn ymateb i unrhyw eitem, gwnawn hynny yn iaith y sawl sy'n anfon y sylw neu'r cwestiwn.

Arwyddion a Hysbysiadau

Mae'r holl arwyddion a'r hysbysiadau i bobl sy'n ymweld â'r Ardd, ac eithrio rhai arwyddion gwyddonol, i'w gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Polisi'r Ardd yw i'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog a'r geiriau Cymraeg wedi'u gosod fel eu bod yn debygol o gael eu darllen yn gyntaf.

Derbyniad

Caiff staff yn ein Tŷ Porth a mannau eraill sy'n dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd eu hannog i gyfarch pobl yn ddwyieithog, ac i siarad Cymraeg ag ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae arwydd dwyieithog yn y Tŷ Porth yn annog ymwelwyr i siarad Cymraeg yn yr Ardd, boed yn siaradwyr rhugl ynteu'n ddysgwyr.

Disgwylir i staff sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodyn neu arwydd i ddangos hynny.

Tendrau

Polisi'r Ardd yw i bob tender a hysbysiad gael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gwahodd cyflwyniadau yn y naill iaith neu'r llall. Er bod rhai tendrau wedi eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig, fel rheol gyda chynnig i ddarparu fersiwn Gymraeg drwy wneud cais, disgwyliwn y bydd gallu cael gwasanaethau cyfieithu o safon yn golygu na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.

Cyrsiau addysg

Mae'r Ardd wedi ymrwmo i redeg cyrsiau a sgysiau yn Gymraeg lle mae'n bosibl.

staff members write blog posts, and those usually appear in the language(s) of the author.

All posts on Twitter, Facebook and Instagram from official Botanic Garden accounts are in Welsh and English. When we respond to any post, we do it in the language of the person posting the comment or question.

Signs and Notices

All signs and notices for visitors to the Garden, except some scientific signs, appear in both Welsh and English. It is the policy of the Garden that all of its signs are bilingual, with the Welsh placed so that it is likely to be read first.

Reception

Staff in our Gatehouse and other public-facing areas are encouraged to use bilingual greetings, and to speak Welsh to Welsh-speaking visitors. A bilingual sign in the Gatehouse encourages visitors to speak Welsh in the Garden, whether they are fluent or a learner.

Welsh-speaking staff are expected to wear badges or lanyards that identify them as such.

Tenders

It is the policy of the Garden that all tender notices and invitations to tender are published in both Welsh and English, and that they invite submissions in either language. Whilst some tenders were issued in English only, usually with an offer to supply a Welsh language version on request, we expect improved access to high-quality translation services means that this does not happen in the future.

Education courses

The Garden is committed to running courses and talks in Welsh where possible.

4 **Safonau Llundio Polisi**

Ni chawsom ddim cwynion yn ymwneud â llunio polisi yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Ardd yn cydnabod fod ganddi ddyletswydd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, ac ystyried sut y gellir cefnogi'r iaith drwy ei phenderfyniadau.

Pan fyddwn yn gwneud gwaith ymchwil, neu pan fyddwn yn ymgynghori am ein cynlluniau, byddwn yn gofyn am farn sut y gallai hynny effeithio ar y Gymraeg a ble y gallai fod yna gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr Ardd.

5 **Safonau Gweithredol**

Ni chafwyd dim cwynion yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r safonau gweithredu.

Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol

Defnyddir y Gymraeg ar lafar ynghyd â'r Saesneg yn fewnol ym mhobman, ac mae polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn cael ei ddatblygu.

Gweithwyr

Gall staff ofyn am gael eu contract cyflogaeth a dogfennau personol eraill am eu cyflogaeth yn Gymraeg.

Caiff rhywfaint o hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gan adrannau ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod cyrsiau gloywi Iechyd a Diogelwch yn cael eu darparu yn Saesneg ar hyn o bryd.

Polisiâu a gyhoeddir yn Gymraeg

Mae Llawlyfr yr Ardd i Weithwyr ar gael ar hyn o bryd yn Saesneg yn

4 **Policy Making Standards**

We received no complaints relating to the policy-making standards during the year.

The Garden recognises it has a duty to use and promote the Welsh language, and considers how the language can be supported through its policy decisions.

When we undertake research, or when we consult on our plans, we seek views on how use of the Welsh language might be affected and where there might be opportunities for improving the use of the Welsh language in the Garden.

5 **Operational Standards**

No complaints were received during the year in relation to the operational standards.

Policy on using Welsh internally

Spoken Welsh is used alongside English internally throughout, and a policy on the use of Welsh internally is being developed.

Employees

Staff may request their contract of employment and other personalised documents relating to their employment in Welsh.

Some department-based Health and Safety training is delivered through the medium of Welsh although annual Health and Safety refresher courses are currently delivered in English.

Policies published in Welsh

The Garden's Employee Handbook is currently available in English only as all policies are undergoing review.

unig gan fod ei pholisïau i gyd yn cael eu hadolygu.

Cwynion staff / disgyblu

Gall staff gyflwyno cwynion, ac ymateb i unrhyw gŵyn a wneir amdanynt hwy, yn Gymraeg. Bydd pob gwrandawriad disgyblu a'r holl brosesau cysylltiedig yn cael eu cynnal yn Gymraeg os dyna ddymuniad yr aelod staff dan sylw.

Meddalwedd

Prynwyd trwydded i'r safle cyfan ar gyfer yr holl staff sydd am osod meddalwedd Cysgliad yn eu manau gweithio er mwyn gwirio sillafiad a gramadeg dogfennau wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg.

Datblygu sgiliau yn y Gymraeg

Cynigiwyd cyrsiau Cymraeg Gwaith ar-lein i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr, ac roedd tua phedwar ar ddeg wedi cofrestru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ymunodd rhai aelodau staff â grwpiau sgwrsio Cymraeg a oedd yn cael eu rhedeg bob wythnos gan aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg. Talwyd costau un aelod o'r staff iddi fynd ar gwrs wythnos i ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg.

Roedd yn ofynnol i'r staff i gyd fynd i sesiwn ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg; mae'r cwrs hwn yn rhan o'r broses gyflwyno i'r holl aelodau staff newydd yn yr Ardd.

Llofnodion e-bost, atebion allan o'r swyddfa

Mae'n ofynnol i'r staff i gyd ddangos eu llofnod e-bost yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac i gynnwys y geiriau "Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg" ar waelod eu neges e-bost.

Mae cronfa o ymadroddion dwyieithog ar gael i staff iddynt allu defnyddio negeseuau dwyieithog pan fyddant allan o'r swyddfa.

Recriwtio

Cafodd yr holl swyddi gwag eu hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac anfonwyd yr holl fanylion am swyddi gwag at ymgeiswyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Staff complaints/disciplinary

Staff may make complaints, and respond to any complaint made about them, in Welsh. Disciplinary hearings and all related processes will be conducted in Welsh if that is the wish of the member of staff concerned.

Software

A site-wide licence was purchased for all staff that require it to install Cysgliad software on their workstations in order to check the grammar of documents written in Welsh.

Developing Welsh language skills

On-line Work Welsh courses were offered to all staff and volunteers, with approximately fourteen members having registered by the end of the financial year. Some staff joined Welsh conversation groups that were run on a weekly basis by Welsh-speaking members of staff. One member of staff was funded to attend a week-long course to develop her Welsh language skills.

All members of staff were required to attend a Welsh Language Standards awareness session; this course forms part of the induction process of all new members of staff at the Garden.

E-mail signatures, out of office replies

All staff are required to display their e-mail signature in Welsh and English, and to display the "Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg" image at the bottom of their e-mails.

A bank of bilingual phrases is available to staff to allow them to use bilingual out-of-office e-mail messages.

Recruitment

All job vacancies were advertised in both Welsh and English, and all details of vacant posts were sent to applicants in Welsh and English.

Before each vacancy was advertised, the requirement for Welsh

Cyn hysbysebu pob swydd wag, aseswyd y gofyniad am sgiliau yn y Gymraeg. Yn y Manylion Person ar gyfer pob swydd pennwyd bod rhuglwydd yn y Gymraeg yn hanfodol, dymunol iawn neu ddymunol.

Arwyddion Mewnol

Roeddem yn cydymffurfio â'r Safonau hyn, ac roedd pob arwydd yn ddwyieithog a'r geiriau Cymraeg wedi'u gosod fel eu bod yn debygol o gael eu darllen yn gyntaf.

6 Sgiliau yn y Gymraeg: Gweithwyr

Ni chafodd ffigurau manwl am lefelau sgiliau gweithwyr yn y Gymraeg eu cadw am flwyddyn yr adroddiad hwn. At hynny, mae gan yr Ardd weithwyr tymhorol iawn. Gwelir isod amcangyfrif o fedruswydd staff yn ystod y flwyddyn.

Lefel	Canran Staff
0-1	50%
2-3	20%
4-5	30%

7 Sgiliau yn y Gymraeg: Swyddi Newydd a Rhai Gwag

Yn y tabl isod gwelir niferoedd y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn, yn ôl lefel y medruswydd angenrheidiol:

Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	1
Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg wrth gael eu penodi i'r swydd	0
Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	11
Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

language skills was assessed. In the Person Specification of each post, fluency in written and spoken Welsh was rated as either essential, highly desirable or desirable.

Internal Signs

We were compliant with these Standards, with all signs being bilingual and Welsh placed so that it is likely to be read first.

6 Welsh Language Skills: Employees

Exact figures were not kept on the Welsh language skill levels of employees for the year of this report. In addition, the Garden has a highly seasonal workforce. An estimate of the proficiencies of staff during the year is shown below.

Level	Percentage of Staff
0-1	50%
2-3	20%
4-5	30%

7 Welsh Language Skills: New and Vacant Posts

The numbers of posts advertised during the year, by level of Welsh language proficiency required, are shown in the table below:

Welsh Language skills are essential	1
Welsh Language skills are needed to be learnt when appointed to the post	0
Welsh Language skills are desirable	11
Welsh Language skills are not necessary	0

8 Hyfforddiant Staff yn Gymraeg

Ni chafwyd dim ceisiadau am hyfforddiant yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, fe gynhaliwyd rhywfaint o hyfforddiant adrannol, a sesiynau anffurfiol eraill, yn Gymraeg.

9 Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Swyddog Cydymffurfiant yr Ardd Fotaneg yn:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Neuadd Middleton
Llanarthne,
Sir Gaerfyrddin SA32 8HG.

neu e-bost gruffydd.thomas@gardenofwales.org.uk.

Mae croeso ichi ysgrifennu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

8 Staff Training Conducted in Welsh

No requests to receive training in Welsh were received during the year. However, some departmental training, and other informal sessions, were held in Welsh.

9 Further information

For further information, please contact the Botanic Garden's Compliance Officer at:

National Botanic Garden of Wales,
Middleton Hall,
Llanarthne,
Carmarthenshire SA32 8HG.

or e-mail gruffydd.thomas@gardenofwales.org.uk.

You are welcome to write in Welsh or English.